

Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gwella ar gyfer 2012 - 2013

RHAN 2



BRECON BEACONS
NATIONAL PARK

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gwella

2012 - 2013

RHAN 2



Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd, Mrs Julie James.....	4
1. Cyflwyniad.....	5
2. Amdanom ni.....	6
3. Y Flwyddyn yn Gryno.....	7
3.1 Gofalu am gynllunio.....	7
3.2 Gofalu am fusnes.....	8
3.3 Gofalu am yr amgylchedd.....	8
3.4 Gofalu am bobl.....	9
4. A wnaethom gyflawni'r hyn a fwriadwyd yn 2012/2013 (Amcanion Gwella).....	10
4.1 AG 1- Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol.....	10
4.2 AG 2- Mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod rhag datblygu amhriodol.....	11
4.3 AG 3- Mae treftadaeth arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael ei gwarchod a'i gwella.....	12
4.4 AG 4- Bydd hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes ac yn ei drefn lywodraethu, ynghyd â hygyrchedd y rhain iddynt, yn cael eu gwella.....	13
4.5 AG 5- Mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod a'i gwella trwy ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithredu ymarferol a chynghor ynghylch cynllunio.....	14
4.6 AG 6- Mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan, ac yn cydnabod manteision y lle y maent yn byw ynddo.....	18
5. Casgliad.....	20
Atodiadau	
Atodiad 1 – Crynodeb Ariannol.....	22
Atodiad 2 – Dangosyddion Perfformiad Statudol 2012-13.....	23
Atodiad 3 – Dangosyddion Perfformiad Craidd Parciau Cenedlaethol Cymru 2012-13..	25
Atodiad 4 - Geirfa Acronymau.....	27
Atodiad 5 – Cynllun Gwella Busnes Rhan I.....	29

Rhagair

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein perfformiad y llynedd. Mae'r adroddiad sydd gennych yn eich dwylo yn gwrthbrofi rhai o'r mythau ynghylch perfformiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol - er enghraifft mae'r syniad ei bod yn anodd cael caniatâd ar gyfer ceisiadau cynllunio mewn Parc Cenedlaethol yn cael ei wadu gan yr ystadegau – cafodd 85% o'r ceisiadau a dderbyniwyd eu cymeradwyo gan yr Awdurdod.

Rwyf yn nodi gyda rhywfaint o falchder personol bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i fod yn un o'r nifer fach iawn o Awdurdodau (a'r unig Parc Cenedlaethol) sy'n gweddarlledu ei gyfarfodydd i'r cyhoedd yn gyffredinol eu gweld – sy'n dangos ein hymroddiad i dryloywder yn ein prosesau ein hunain ac atebolrwydd i'r cyhoedd.

Mae dyfodol y Parc Cenedlaethol a'r holl gymunedau o fewn ei ffiniau wedi eu cysylltu'n annatod. Mae cymunedau ffyniannus yn ategu harddwch naturiol tirwedd y parc ac mae ein cynlluniau cymunedol yn adlewyrchu penderfyniad i feithrin y berthynas symbiotig honno. Mae gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ffisegol y Parc ac rydym yn falch o fod yn cefnogi rhaglenni megis y prosiect Mosaic ar gyfer cymunedau pobl dduon ac ethnig. Yn ogystal, rydym wedi cyflawni prosiectau gyda'n staff ein hunain a thrwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda phartneriaid sy'n bodloni ein targedau bioamrywiaeth.

Mae gennym waith i'w wneud o hyd – mae ein timau sy'n gweithio ym maes Rheoli Datblygu a Gorfodaeth yn parhau i wella eu perfformiad. Mae'r pwysau i gyrraedd eu holl dargedau o fewn y terfynau amser penodedig yn golygu bod yn rhaid iddynt jyglo eu llwyth gwaith yn barhaus. Mewn rhai meysydd yn 2012-13, rydym yn gwybod bod ein perfformiad wedi llithro yn ôl ychydig, ond yn y flwyddyn ariannol bresennol, rydym yn disgwyl gweld gwelliannau unwaith eto yn y maes hwn. Fel Awdurdod, rydym yn monitro'r gweithgareddau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni anghenion ein cwsmeriaid.

Rwyf yn gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad hwn ac y byddwch yn rhannu fy ymdeimlad o falchder yn ein cyflawniadau a gwyllo gyda diddordeb i weld Aelodau a Swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd ar feysydd lle mae angen gwella yn y flwyddyn sydd i ddod.

Dymuniadau gorau,

Julie James
Cadeirydd,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

I. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Mae'r Cynllun wedi ei ysgrifennu mewn dwy ran gyda Rhan 1 - sy'n edrych ymlaen at ac amlinellu amcanion blaenoriaethol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd - yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae hon i'w gweld yn Atodiad 5.

Mae Rhan 2 yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn ystyried cynnydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn erbyn yr amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2012 i fis Mawrth 2013 a nodwyd yn Rhan 1 y Cynllun Gwella a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012. Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi dull yr Awdurdod o ran cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru a'i ymrwymiad i welliant parhaus. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Rhan 2 ei Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella heb fod yn hwyrach na 31 Hydref bob blwyddyn.

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad hwn o'n gwefan yn www.bannaubrycheiniog.org neu gallwch ofyn am gopi papur drwy ffonio ein Hadran TG ar 01874 620465 neu drwy anfon neges e-bost at IT@beacons-npa.gov.uk.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar ei berfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac mae'r adroddiad hwn ar gael yma: <http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/who-we-are/our-policies-and-protocols/welsh-language-scheme/monitoring-reports-for-the-welsh-language-scheme?searchterm=welsh+monitor>

Datganiad Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella canlynol, yr wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo a'r amcangyfrifon y mae'r rhain wedi eu seilio arnynt.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwelliannau yn ei berfformiad a'r mesurau rheoli mewnol a fu'n sail i gynhyrchu'r wybodaeth a'r asesiad yn y Cynllun hwn.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod cynnwys y Cynllun ym mhob ffordd berthnasol yn gywir ac yn gyflawn, yn realistig ac yn gyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

2. Amdanom ni

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dirwedd warchoddedig hardd sy'n ymestyn dros 520 milltir² ac mae'n gorwedd rhwng ardal wledig Canolbarth Cymru a Chymoedd diwydiannol De Cymru. Fe'i dynodwyd ym 1957 ac mae'n un o'r 15 aelod o deulu Parciau Cenedlaethol y DU, sydd â thri ohonynt yng Nghymru. Mae pob un o Barciau Cenedlaethol Cymru (sef Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri) yn rhannu'r un dibenion statudol a'r un ddyletswydd. Mae'r ddau Ddiben Statudol fel a ganlyn:

- **Cadwraeth a Gwella**
“Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol”
- **Dealltwriaeth a Mwynhad**
“Hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol.”

Yn ogystal, mae gennym hefyd Ddyletswydd Statudol i “geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol drwy weithio'n agos â'r asiantaethau ac Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am y materion hyn”.

Mewn unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y dibenion a'r ddyletswydd, cyfarwyddir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i roi'r pwys mwyaf i'r diben cyntaf; gelwir hyn yn Egwyddor Sandford.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i tua 33,000 o drigolion ac mae'n gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr gydag amcangyfrif o bron i bum miliwn (o ddiwrnodau ymwelwyr) yn 2010.

Caiff y Parc Cenedlaethol ei weinyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol arbennig sy'n cynnwys 24 o aelodau, dros 130 o swyddogion a staff a llawer o wirfoddolwyr.

Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cynnwys 50 o Gyngorau Cymuned ac mae'n ymestyn dros rannau o naw Awdurdod Unedol. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r Awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ddatblygu o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb dirprwyedig dros Hawliau Tramwy tra bod yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol yn cadw cyfrifoldeb am yr holl wasanaethau llywodraeth leol eraill (e.e. priffyrdd, y dreth gyngor ac ati).

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer y Parc Cenedlaethol a amlinellir yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol – sef dogfen sy'n ymestyn dros 20 mlynedd ar y tro. Mae'n gosod y cefndir ar gyfer ein holl ddogfennau strategol ac fe'i lluniwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, tirfeddianwyr a chymunedau ledled y Parc. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella hwn yn dibynnu'n fawr ar ei gamau gweithredu a nodau blaenoriaethol. Am ragor o wybodaeth am sut y caiff y Parc Cenedlaethol ei strwythuro a'i weinyddu, ewch i'n gwefan: www.bannaubrycheiniog.org.

3. Y Flwyddyn yn Gryno

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, rydym wedi pennu cyfres o Amcanion Corfforaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau strategol dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Yn gryno, disgrifir y rhain fel a ganlyn:

- Gofalu am Gynllunio
- Gofalu am Fusnes (yr Awdurdod)
- Gofalu am yr Amgylchedd
- Gofalu am Bobl

O'r pedwar Nod Corfforaethol hyn, nodwyd chwe Amcan Gwella, ac ymhelaethir arnynt yn adran pedwar isod:

1. Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol
2. Mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod rhag datblygu amhriodol
3. Mae treftadaeth arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael ei gwarchod a'i gwella.
4. Bydd hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes ac yn ei drefn lywodraethu, ynghyd â hygyrchedd y rhain iddynt, yn cael eu gwella
5. Mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod a'i gwella trwy ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithredu ymarferol a chynghor ynghylch cynllunio
6. Mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan, ac yn cydnabod mantesion y lle y maent yn byw ynddo

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg cryno o'r hyn rydym wedi ei gyflawni, a hefyd lle rydym heb wneud mor dda, yn mhob un o'n Nodau Corfforaethol:

3.1 Gofalu am gynllunio

- Aethpwyd ymlaen â'r Cynllun Datblygu Lleol drwy'r Cam Archwilio, gyda'r bwriad o'i fabwysiadu erbyn Gaeaf 2013. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod y fframwaith datblygu ar gyfer y Parc am y 15 mlynedd nesaf. Daw yn sgil cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol Adnewo a phedair blynedd o ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â chymunedau a rhanddeiliaid lleol.
- Cymeradwywyd 85% o'r 418 o geisiadau cynllunio a benderfynwyd.
- Cynhaliwyd 31 o ymgysylltiadau cynllunio cyhoeddus.
- Bu gwelliant yn nifer yr achosion gorfodi a ymchwiliwyd iddynt o fewn 12 wythnos i'w derbyn (er ein bod wedi disgyn yn fyr o gryn dipyn o'r targed cytun) tra'n canolbwyntio adnoddau ar leihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi (o 139 i 90 o achosion).

- Drwy ein gwaith partneriaeth gyda Cadw, cyflawnwyd cynnydd o 44% mewn tystiolaeth ffotograffig ar gyfer Henebion Rhestredig yn erbyn targed o 20%.
- Cynhaliwyd un arfarniad Ardal Gadwraeth a pharatowyd un nodyn cyfarwyddyd Ardal Gadwraeth.
- Penodwyd un archaeolegydd.

3.2 Gofalu am fusnes

- Dechreuom weddarlleu cyfarfodydd pwyllgor ar dudalennau rhyngwrdd yr Awdurdod er mwyn gwella tryloywder, atebolrwydd i'r cyhoedd a llywodraethu. Cafwyd dros 8,000 o ymweliadau â'r gweddarllediadau hyd yn hyn (mis Mai 2013), sef tua 300 ymweliad ar gyfer pob cyfarfod ar gyfartaledd.
- Cafwyd datblygiad pellach o ran y rhaglen Craffu sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn llwyddiannus i'n helpu i wella gwasanaethau.
- Sicrwydd llawn ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol gan ein harchwilwyr mewnol.
- Bu prosiect arloesol ar waith drwy gydol y flwyddyn i lunio'r wefan ar gyfer cynrychioli buddiannau masnachol y cwmnïau twristiaeth a dymuniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol i hyrwyddo mwynhad o'r ardal – bydd y wefan sy'n deillio o hyn yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2013.

3.3 Gofalu am yr amgylchedd

- Buom yn dathlu ennill statws gwerthfawr iawn fel Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.
- Cynhaliwyd rhaglenni llosgi rheoledig parhaus ar Hatterrall Hill ac yn y Mynyddoedd Duon sydd dan berchenogaeth y Parc Cenedlaethol, lle buom yn gweithio gyda'r tiffeddianwyr i gynorthwyo gyda rheoli grug ar Bâl Bach/Bâl Mawr. Hefyd, bu llosgi rheoledig i helpu rheoli tir pori ar Fynydd Myddfai ac yng Ngorllewin y Fforest Fawr. Roedd yr offer ymladd tân newydd yn gwneud y broses yn fwy diogel ac o gymorth wrth ymladd tanau anghyfreithlon.
- Cwblhawyd 3,800 metr pellach o waith ar y llwybrau ucheldir, sydd tua 800m yn fwy na'r cyfanswm ar gyfer 2011/12, ac roedd hanner y gwaith yn waith rhagataliol a gynlluniwyd i atal dirywiad pellach ar rannau o'r llwybrau presennol a fyddai wedyn wedi bod yn fwy costus i'w trwsio.
- Gwnaed cynnydd cyfyngedig ar yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc, ond gwnaed cynnydd ar y Prosbectws Ymchwil yr ydym yn gweithio arno gydag amrywiaeth o sefydliadau academiaidd yn 2013/14.
- Bu gostyngiad yn nifer y teithwyr ar Fws y Bannau (yn bennaf oherwydd tywydd gwael) er eu bod yn parhau'n uwch na'r targed. Bu 10,776 o bobl yn defnyddio Bws y Bannau yn erbyn targed o 10,000 (y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 15,722).
- Roedd yr Arian Cyfatebol Parhaus trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ymhell dros y gymhareb darged ar gyfer arian cyfatebol. Y gymhareb ar gyfer arian cyfatebol oedd 1:2.94.

- Cafodd pum Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus eu cwblhau a chafodd pedwar eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cwblhawyd wyth a gwnaed un. Bu cyfyngiad ar welliant yn bennaf oherwydd yr angen annisgwyl i ddelio â gorchmynion cau llwybrau dros dro o ganlyniad i heintiau *Phytophthora ramorum*.
- Cawsom gyllid grant gan yr hyn a oedd ar y pryd yn Gyngor Cefn Gwlad Cymru drwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Gwellwyd 15km o hawliau tramwy gennym. Bu gwelliant da yng nghyflwr ffisegol hawliau tramwy cyhoeddus y Parc o ran cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio.
- Cwblhawyd Prosiect Sblash gennym. Mae hyn wedi gwella cyfleusterau hamdden i ac ar ddŵr mewndirol ac mewn mannau ar lannau dŵr; er enghraifft, sefydlwyd cynllun pasbort cronfeydd sy'n darparu cyfleoedd mynediad rheoledig newydd ar gyfer canŵyr a chiacwyr ym mhedair o gronfeydd Dŵr Cymru yn y Parc Cenedlaethol.

3.4 Gofalu am bobl

- Dechreuwyd ar y gwaith o baratoi Cynllun Rheoli Ymwelwyr a fydd yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2013/14.
- Cychwynwyd arolwg trigolion a disgwylir y canlyniadau yn 2013/2014. Roedd cyfradd ymateb o 21.6% i'r arolwg hwn, sy'n ardderchog ar gyfer arolwg deiliaid tai heb eu henwi.
- Darparwyd profiadau addysg ysbrydoledig ac unigryw'r Parc Cenedlaethol i 6,694 o bobl ifanc ledled y Parc Cenedlaethol drwy ein gwaith addysg – bu cynnydd o 14% mewn gweithgareddau Cyfranogi mewn Addysg o gymharu â 2011/12. Roedd rhan o'r cynnydd o ganlyniad i brosiectau a gyllidwyd yn allanol.
- Cynyddodd nifer ein gwirfoddolwyr o 127 i 147 yn 2012/2013. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Gwirfoddoli Rhaeadrau newydd a Chynllun Gwirfoddoli Ucheldir y Mynyddoedd Duon. Cynyddodd nifer y cynlluniau neu brosiectau y mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu atynt o 14 i 20 yn 2012/2013.
- Treuliyd 1,383 o ddiwrnodau o amser gwirfoddolwyr ar brosiectau Awdurdod y Parc Cenedlaethol (sef cynnydd o 77% ar y 780 o ddiwrnodau a gyflawnwyd y llynedd).
- Bu gwaith parhaus gyda Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig drwy'r rhaglen Mosaic mewn partneriaeth ag Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol lle mae 13 o hyrwyddwyr cymunedol yn ymgymryd ag ymweliadau a hyfforddiant Hyrwyddwyr ar hyn o bryd.
- Cynhaliwyd prosiect hyfforddiant Sgiliau Gwledig (Agored) llawn am y tro cyntaf yn 2012/2013. Bu cyfranogiad cryf iawn gyda 21 (72%) o'r 29 o gyfranogwyr yn cyflawni achrediad Agored (yn erbyn targed o 20).
- Roedd 28 o Lysgenhadon newydd y Parc Cenedlaethol wedi mynychu a chyflawni'r cynllun Llysgenhadon tri diwrnod sy'n adeiladu ar y cyfanswm o 37 ers y flwyddyn flaenorol. Cafodd 21 o fusnesau eu hachredu drwy'r Cynllun Busnes Twristiaeth Werdd.
- Roedd nifer y teithwyr ar Fws y Bannau'n uwch na'r targed er bod y ffigyrau wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol.

- Gwelwyd parhad yn y lefelau sylweddol o weithgarwch o ran gweithio mewn partneriaeth er lles trigolion ac ymwelwyr a'r Awdurdod, gan gynnwys: Cyngreiriau Gwledig, Cerdded gydag Offa, y Rhufeiniaid yn Sir Gaerfyrddin, Prosiect Cuddfan Adar Llangasty, Y Bannau – Bro'r Ystum (Vincent Wildlife Trust), Calch (Chwarel Herbert), a phrosiect MOSAIC.

4. A wnaethom gyflawni'r hyn a fwriadwyd yn 2012/2013 (Amcanion Gwella)?

4.1 AG 1 - Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn cyflawni gwasanaeth cynllunio rhagorol os:

- a) Bu gwelliant mewn lefelau gwasanaeth
- b) Bu mwy o ddealltwriaeth ynghylch rôl cynllunio
- c) Bu mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae gwasanaeth cynllunio rhagorol yn ei olygu
- ch) Sefydlwyd a bodlonwyd y meini prawf a osodwyd gennym yn seiliedig ar y ddealltwriaeth a nodir yn CGBI ar gyfer y flwyddyn ariannol hon

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

- Rydym wedi sefydlu gwaelodlin ar gyfer cofnodi ymarferion ymgynghori cyhoeddus sy'n dangos dilyniant o flynyddoedd blaenorol. Yn 2012/2013, cynhaliwyd 31 o ddigwyddiadau cyhoeddus ar gynllunio. Hefyd cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ar 31 Ionawr 2013 gydag ymgynghoreion statudol ac anstatudol a Chynghorau Cymuned. Disgwylir Strategaeth Gyfathrebu yn 2013/2014 ar ôl cwblhau'r arolwg trigolion.
- Canran y cwsmeriaid a oedd o'r farn bod y gwasanaeth cynllunio'n foddhaol neu well oedd 91% yn erbyn targed o 80%¹. Mae hyn yn dangos cynnydd ers y flwyddyn flaenorol o 88% yn erbyn targed o 76%.
- Canran y cwsmeriaid sydd â hyder yn y gwasanaeth cynllunio oedd 83%. Er bod hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol (94%) roedd yn uwch na'n targed cytunedig o 80%.
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio dros 13 wythnos oed ar ddiwedd y cyfnod (ôl-groniad) ers y flwyddyn ariannol flaenorol o 43 i 42. Mae hyn yn dangos gwelliant ar y flwyddyn flaenorol, ond roedd yn brin o'r targed o 35.
- Canran y ceisiadau cynllunio bach a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos oedd 53.59%. Nid oedd hyn yn bodloni targed yr Awdurdod o 60% ac roedd ychydig yn llai na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (60%).

¹ Noder y geiriad ychydig yn wahanol i'r mesuriad a nodwyd yn BIP1 sy'n nodi "% y cwsmeriaid sydd o'r farn bod y gwasanaeth cynllunio yn *dda neu'n well*". Roedd y newid yn ofynnol er mwyn cadw'r mesuriad yn gyson â mesuriad y flwyddyn flaenorol.

- Canran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos oedd 70.90% yn erbyn targed o 85% ac roedd ychydig yn llai na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (75%).
- Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos oedd 53.84% yn erbyn targed o 60% ac roedd ychydig yn llai na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (61%).
- Canran y ceisiadau bach, ceisiadau gan ddeiliaid tai a cheisiadau eraill a benderfynwyd o fewn wyth wythnos oedd 60.80% yn erbyn targed o 70%. Roedd hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (67%).
- Canran y ceisiadau ar gyfer datblygu a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cymeradwyo oedd 85% ac roedd yn cwrdd â'r targed o 85%. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (84%).
- Cafodd pedwar o apeliadau eu penderfynu a oedd yn cadarnhau penderfyniad yr Awdurdod mewn perthynas â phenderfyniadau am geisiadau cynllunio, sef 50% yn erbyn targed o 80%. Roedd hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (85%).

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ein dyhead i ddarparu gwasanaeth cynllunio rhagorol. Er gwaethaf cynnydd o 9.1% yn nifer y ceisiadau cynllunio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer boddhad cwsmeriaid ac wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol. Rydym hefyd wedi rhagori ar ein targed ar gyfer hyder cwsmeriaid yn y gwasanaeth. Er ein bod wedi gostwng ein hól-groniad o achosion dros 13 wythnos oed, rydym yn cydnabod nad ydym wedi cyrraedd ein targedau ar gyfer y flwyddyn ac mae gwaith i'w wneud yn y maes hwn. Hefyd, nid ydym wedi cyrraedd ein targed o ran nifer yr achosion a benderfynir o fewn wyth wythnos ym mhob categori ac i gydnabod hyn, rydym wedi ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio i sicrhau y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn mewn pryd ar gyfer adolygiad y flwyddyn nesaf.

4.2 AG 2 - Mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod rhag datblygu amhriodol

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn llwyddo i warchod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol rhag datblygu amhriodol os:

- a) Byddem yn profi llai o ddatblygu heb awdurdod sy'n groes i'r rheolau
- b) Cyflawnir canlyniadau boddhaol lle torrwyd y rheolau
- c) Rhoddir ymatebion amserol i'r materion
- ch) Bydd lefel dda o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch y rôl gorfodi

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

- Datblygwyd dull rhestr wirio gennym ym mis Gorffennaf 2012 i nodi pa rinweddau arbennig sy'n cael eu bygwth gan dor-rheolau cynllunio honedig. Mae hyn yn dangos cynnydd o gymharu â blynyddoedd blaenorol pan nad oedd data o'r fath ar gael.

- Bu gostyngiad sylweddol o 49 achos yn nifer yr ôl-groniadau o achosion gorfodi o 139 i 90. Er i ni fethu â chyrraedd ein targed o 50 o achosion o un achos yn unig, bu gwelliant sylweddol ar y ffigwr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (140).
- Roedd canran yr achosion a ddatryswyd o fewn 12 wythnos yn 29%. Er bod hyn yn welliant ar y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (22%), nid oedd yn cwrdd â'n targed o 65%. Roedd hyn oherwydd ein bod yn canolbwyntio ar leihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi.
- Cafodd un apêl gorfodi ei benderfynu o fewn y cyfnod hwn a oedd yn cynnal penderfyniad yr Awdurdod mewn perthynas â hysbysiadau gorfodi. Roedd hyn yn cwrdd â'r targed o 100%.

Yn gyffredinol, rydym wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol, ond methom â chyrraedd ein targed o ddatrys 65% o achosion gorfodi o fewn 12 wythnos. Fodd bynnag, rydym wedi lleihau'r ôl-groniad o achosion gorfodi yn sylweddol ac rydym yn parhau i weithio ar gwrdd â'n targedau eleni.

4.3 AG 3 - Mae treftadaeth arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael ei gwarchod a'i gwella.

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn llwyddo gwarchod a gwella amgylchedd y Parc os oedd:

- a) Llai o adeiladau mewn perygl
- b) Mwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymhlith perchenogion ac ymgeiswyr ynghylch pwysigrwydd gwarchod a gwella cymeriad arbennig adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac archaeoleg
- c) Llai o waith heb awdurdod yn cael ei wneud ar adeiladau hanesyddol
- ch) Gwell gwybodaeth a data ynghylch Henebion Rhestredig

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

- Ni fu unrhyw ostyngiad yn nifer yr adeiladau sydd mewn perygl, sef 129. Mae canran yr adeiladau mewn perygl hefyd wedi parhau ar 6.5%. Methwyd y targed hwn yn rhannol o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.
- Paratowyd un nodyn cyfarwyddyd Ardal Gadwraeth, sy'n cwrdd â tharged yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn.
- Derbyniodd saith o Adeiladau Rhestredig gymorth grant yn erbyn targed o bump. Roedd hyn hefyd yn dangos gwelliant ar y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (pedwar).
- Cwblhawyd un arfarniad Ardal Gadwraeth yn erbyn targed o un.
- Cyflawnwyd cynnydd o 44% yng nghyfran y dystiolaeth ffotograffig ar gyfer Henebion Rhestredig yn erbyn targed o 20%. Roedd hyn yn dangos gwelliant sylweddol ar y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (20%).
- Roedd canran y cyllid a aeth tuag at Adeiladau mewn Perygl yn 93% yn erbyn targed o 50%. Roedd hyn yn dangos gwelliant ar y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol (50%).

- Mae canran y caniatadau Adeilad Rhestredig a gaiff eu hanfon ymlaen at Cadw o fewn wyth wythnos yn cael ei gofnodi a'i fesur erbyn hyn. Roedd y ffigwr yn 14% yn erbyn targed o 65%.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon ein bod yn perfformio'n dda yn y maes hwn. Rydym wedi cyflwyno mesuriad newydd i'w gofnodi (% y caniatadau Adeilad Rhestredig a gaiff eu hanfon ymlaen at Gadw o fewn wyth wythnos) sy'n dangos cynnydd, er ein bod yn cydnabod nad ydym wedi cyrraedd ein targed cytunedig o ran y mesuriad hwn. Ni fu lleihad yn nifer yr Adeiladau mewn Perygl - unwaith eto, yn bennaf o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch. Fel Awdurdod bach, yn aml ag adrannau arbenigol o un neu ddau unigolyn yn unig, rydym yn arbennig o agored i ganlyniadau absenoldeb oherwydd salwch. Ym mhob mesuriad arall yn y maes hwn, rydym wedi cyflawni neu ragori ar y targedau cytunedig.

4.4 AG 4 – Bydd hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes ac yn ei drefn lywodraethu, ynghyd â hygyrchedd y rhain iddynt, yn cael eu gwella

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn cyflawni gwelliant yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes ac yn ei drefn lywodraethu, ynghyd â hygyrchedd y rhain iddynt yn ôl y canlynol:

- a) Adborth gwell drwy'r Aelodau
- b) Cymeradwyaeth ar gyfer ein perfformiad gan Swyddfa Archwilio Cymru
- c) Mwy o adborth gan grwpiau defnyddwyr ac mewn ymgynghoriadau cymunedol
- ch) Aelodau'n derbyn adborth gwell ynghylch yr Awdurdod gan eu hetholwyr ac aelodau'r cyhoedd

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

- Gwnaed 8.71 o sesiynau hyfforddiant ar gael i aelodau unigol yn ystod y cyfnod yn erbyn targed o 7.
- Roedd canran yr Aelodau a fynychodd sesiynau hyfforddiant yn 62% yn erbyn targed o 75%. Mae'r mesuriad yn is na'r targed oherwydd y nifer anghyffredin o aelodau newydd (13 allan o 16) a nifer o gynghorwyr newydd o awdurdodau cyfansoddol a oedd ar yr un pryd yn mynychu hyfforddiant sefydlu yn eu hawdurdodau eu hunain. Roedd hwn yn fater yn ymwneud â chapasiti yn hytrach na diffyg diddordeb neu ddiffyg ymrwymiad.
- Cynhaliwyd 209 o ddiwrnodau hyfforddiant yn erbyn targed o 168.
- Paratowyd dau adolygiad craffu gydag argymhellion a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth yn erbyn targed o ddau – roedd yr ail adolygiad yn ehangach ac yn ddyfnach nag a gwmpaswyd yn wreiddiol ac ni chafodd ei gwblhau mewn gwirionedd tan yn fuan ar ôl y flwyddyn ariannol.
- Cafodd cynllun peilot 18 mis o weddarlledu'r tri phrif gyfarfod pwyllgor ei gwblhau ac mae'n cwrdd â'r targed cytunedig.

- Crëwyd arolwg lle'r oedd Aelodau a grwpiau cymunedol yn gallu barnu pa mor ddefnyddiol fu'r gweddarlledu. Roedd 89% o Aelodau a grwpiau cymunedol a arolygwyd o'r farn bod y gweddarllediadau'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, yn erbyn targed o 75%.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon ar ein perfformiad yn y maes hwn. Roeddem wedi cyrraedd neu ragori ar ein targedau cytunedig ym mhob mesuriad ac eithrio'r diwrnodau hyfforddiant a fynychwyd gan Aelodau, sydd o ganlyniad i nifer anghyffredin o aelodau newydd a oedd hefyd yn mynychu hyfforddiant sefydlu yn eu hawdurdodau eu hunain ar y pryd. Hefyd, cyflwynwyd dau fesuriad newydd gennym sy'n dangos cynnydd yn y maes hwn.

4.5 AG 5 - Mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod a'i gwella trwy ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithredu ymarferol a chngor ynghylch cynllunio

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn llwyddo i warchod a gwella bioamrywiaeth drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithredu ymarferol a chngor cynllunio os oedd:

- a) Grwpiau cymunedol yn cymryd rhan weithredol
- b) Gwelliant yng nghyflwr ecolegol cynefinoedd sydd o bwysigrwydd hanfodol i Gymru
- c) Penderfyniadau gwell yn cael eu gwneud o ganlyniad i wybodaeth arolwg gyflawn
- ch) Y dirwedd wedi ei hadfer yn dilyn gosod y biblinell nwy at foddhad Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

Coetir

- Roedd targedau rheoli coetiroedd yn amcangyfrifon o'r hyn a oedd yn gyraeddadwy a daeth yr hyn a gyflawnwyd yn agos at yr amcangyfrifon; e.e. 54 hectar yn hytrach na 60, sef cyfradd cyflawniad o 90%, ac mae 83m³ yn hytrach na 90m³ yn gyfradd cyflawniad o 92%. Cafodd y targed ar gyfer cynhyrchu golosg o 700kg ei ragori (900kg neu 129%).
- Mae'r archwiliad o'r cytundebau coetir S39 wedi ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf; nid oedd grwpiau cymunedol yn barod i fabwysiadu coetiroedd newydd y llynedd.
- Mae un grŵp coetir wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb mewn Ceisiadau Grant Coetir Glastir.

Bioamrywiaeth

- Gweler y tabl isod am restr o brosiectau bioamrywiaeth cymunedol a gyflawnwyd yn ystod 2012-2013:

Prosiectau bioamrywiaeth cymunedol a gyflawnwyd yn ystod 2012-2013		
Ffromlys Chwarennog, Canolfan Addysg Awyr Agored Gilwern	Tynnu Ffromlys a hyfforddiant ar gyfer staff y Ganolfan Addysg Awyr Agored i barhau i'w atal rhag lledaenu	
Arolwg Bioamrywiaeth Coed Fedw	Arolygwyd ystlumod, gwyfynod, mamaliaid bach ac adar yn ystod mis Mai	
Ymddiriedolaeth Lluest i Geffylau a Merlod	Gwaith i gefnogi cais llwyddiannus am grant Ymddiriedolaeth y Bannau i greu llwybr natur a dod â choetir gwlyb yn ôl o dan reolaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar y llwybr yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth ar reoli coetiroedd	
Hyfforddiant Gwâl Dyfrgwn	Adeiladwyd gwâl ar gyfer dyfrgwn a hyfforddwyd saith aelod o grwpiau coetiroedd ar sut i adeiladu gwalau dyfrgwn ar gyfer y dyfodol	
Gwelliannau Cynefin, Coed y Parc	Cychwyn gwaith partneriaeth gyda Choed Cadw a Grŵp Coetir Talgarth i reoli prysgwydd er mwyn creu man heulog ar gyfer infertebratau ac ymlusgiaid	
Gwelliannau Cynefin, Ffynnon Maen Du	Gwelliannau i'r cynefin ar gyfer amffibiaid ac ymlusgiaid	Cefnogir gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
Gwelliannau Cynefin, Llangatwg	Gwelliannau wrth ymyl Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog i wella'r cynefin ar gyfer nadroedd y gwair	Cefnogir gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
Community Cotton, tyfu glaswellt	Recriwtio gwirfoddolwyr, cydlynu, dosbarthu deunyddiau a chasglu adborth ar gyfer y prosiect	Cefnogaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog drwy Gronfa Cydnerthedd LIC

	APCBB hwn	
Tales from the Wild Wood	Darparwyd cymorth a chyngor technegol ar gyfer y cynhyrchiad BBC4 hwn	Chwe rhifyn a ddarledwyd ar BBC4 yn Hydref 2012
Woodland Homes	Prosiect ar y cyd â'r Vincent Wildlife Trust (Y Bannau – Bro'r Ystlum) i osod 100 o focsys adar a 50 o focsys ystlumod mewn safleoedd coetir cymunedol, gosod tair clwyd arbrofol a hyfforddi cymunedau i gynnal arolygon ystlumod	Cymorth grant gan Gronfa Cadwraeth a Chymuned Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Brecon Greenspaces	Cais cychwynnol i Gyngor Sir Powys am gymorth ar gyfer gwelliannau cynefin yn Island Field a Priory Groves yn Aberhonddu	
Odynau Calch a choetir yn Y Watton	Gwaith wedi cychwyn ar brosiect i adfer strwythur yr odynau calch rhestredig a gwelliannau cynefin yn y coetir cyfagos	Gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Cyllid gan Cadwch Gymru'n Daclus, Penwythnos Gwyllt

- Mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth parhaus gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth, sef canolfan cofnodion biolegol, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cofnodi gwybodaeth o wahanol fathau o rywogaethau a chynefinoedd. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn darparu adroddiadau ar geisiadau cynllunio, gan roi gwybodaeth am rywogaethau o fewn clustogfa ddaearyddol benodol, sydd wedi bod o ddefnydd sylweddol i swyddogion cynllunio.
- Heb gyflawni/Yn bwriadu eu symud ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf:
 - Cysylltu â Thîm Strategaeth a Pholisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i nodi lle gellir cael synergedd rhwng cynlluniau dylunio pentrefi, archwiliadau bioamrywiaeth, coetiroedd cymunedol newydd a phrosiectau bwyd.
 - Cael cyngor cynnar uniongyrchol gan PONT ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu un neu fwy o gynlluniau pori lleol.
 - Mynd ati i hyrwyddo o leiaf un fenter genedlaethol ddefnyddiol, e.e. "Calendr Natur" a gyd-drefnir gan Goed Cadw a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (gweler <http://www.naturescalendar.org.uk/>).
 - Darparu set gyflawn o archwiliadau gydag argymhellion ar gyfer prosiectau cadwraeth bioamrywiaeth (rheoli cynefinoedd, dadansoddi, addysg, hyfforddiant ac ati).

Mesurau sy'n Weddill

- Ni chwblhawyd dynodi Cronfa Ddŵr Talybont yn Warchodfa Natur Leol oherwydd materion yn ymwneud â pherchenogaeth y tir y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Mae'r materion hyn wedi eu datrys erbyn hyn a chytunwyd ar ddyddiad newydd ar gyfer cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol, gan gynnwys cymorth grant i sefydlu grŵp Cyfeillion, cwblhau'r Cynllun Rheoli a diffinio ffin safle ddelfrydol. Mae'r olaf yn amodol ar y materion yn ymwneud â pherchenogaeth y tir. Anfonwyd cyfarwyddiadau ymlaen at dîm cyfreithiol yr Awdurdod i brosesu'r dynodiad yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Rydym wedi cwblhau rhaglen 2012-2013 o dasgau rheoli cynefinoedd yn Llangasty (Ardal Cadwraeth Arbennig Llyn Llan-gors) a Gwlad y Sgydau (gan gynnwys Coedydd Nedd ac ACA Mellte) a oedd yn cwrdd â'r targed ar gyfer y mesuriad hwn.
- Comisiynwyd un arolwg gennym ar gyfer SoDdGA yn erbyn targed o un. Mae'n ymwneud â'r arolwg planhigion is a gwblhawyd ar hyd Ceunant Mellte, o fewn Coedydd Nedd ac ACA Mellte. Rhoddodd yr adroddiad gyngor ynghylch lleoliadau sensitif sy'n agored i aflonyddwch oherwydd cerdded ceunentydd, a gwnaed argymhellion ar sut i leihau'r effeithiau. Mae'r argymhellion hyn wedi eu cynnwys erbyn hyn mewn Cod Ymddygiad Cerdded Ceunentydd diwygiedig ac estynedig, a oedd eisoes yn cynnwys Ceunant Sychryd. Cafodd yr arolwg a'r adroddiad eu hariannu gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, a gwnaed y cais gan Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (SWOAPG).
- O ran y mesuriad 'Datblygu dull effeithiol o fonitro cydymffurfiad ag amodau cynllunio yn ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth' - cychwynwyd ar waith ymchwil ar ddulliau addas o fonitro cydymffurfiad ond ni chafodd ei gwblhau. Mae'n werth nodi bod Nodyn Cyngor Cynllunio 17 (ystlumod ac adeiladau) wedi ei ddiwygio'n sylweddol a chafodd darpariaeth dau ddiwrnod yr wythnos i gefnogi'r gwasanaeth cynllunio ei rhagori'n gyson, gan ddarparu tri diwrnod yr wythnos yn erbyn targed o ddau ddiwrnod yr wythnos
- Bu contractwyr National Grid Gas PLC yn cynnal eu presenoldeb yn y lleoliadau yr effeithir arnynt sy'n weddill ar hyd llwybr y biblinell nwy er mwyn cwblhau tasgau yn unol ag amodau'r caniatâd. Mae'r sefyllfa hon yn parhau ac yn parhau i gael ei monitro

Yn gyffredinol, rydym yn hapus iawn â'r cynnydd a wnaed gennym yn y maes hwn. Mae'r gwaith a wnawn yn uniongyrchol gyda'n hadnoddau a'n staff ein hunain (megis y gwaith a wneir gan y tîm Wardeiniaid) a'r gefnogaeth a ddarparwn i bartneriaid fel Cwmni Buddiant Cymunedol Y Cymoedd Gwyrdd drwy'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi darparu gwaith i warchod a gwella bioamrywiaeth eleni. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth lleol dan arweiniad cymunedol a phrosiectau grwpiau coetir a gyflawnir gan Y Cymoedd

Gwyrdd, a'n gwaith rheoli yn Llangasty Caeau Tŷ Mawr, a'n rhaglen llosgi grug a glaswellt yn y gaeaf ar y Mynyddoedd Duon a'r Mynydd Du.

Yn y tymor hwy, rydym wedi gwneud cynnydd da ar draws y Mynydd Du o ran cefnogi ceisiadau Cymdeithasau Tiroedd Comin ar gyfer Glastir, ac rydym yn datblygu cysylltiadau partneriaeth yn y Mynyddoedd Duon.

4.6 AG 6 - Mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan, ac yn cydnabod mantesion y lle y maent yn byw ynddo

Dywedom y byddem yn gwybod a ydym yn llwyddo i ysbrydoli cymunedau yn ôl y canlynol:

- a) Canran bositif o sgorau da neu uwch mewn arolygon.
- b) Gostyngiad canran mewn ystadegau troseddu (e.e. gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd, dwyn o feysydd parcio).
- c) Cynnydd mewn Cynghorau Cymuned sy'n ymuno â'r Siarter Cynghorau Cymuned.
- ch) Rydym wedi bodloni cymarebau Arian Cyfatebol Datblygu Cynaliadwy ar gyfer prosiectau a ariennir gan grantiau.
- d) Mae cynnydd yn yr adborth gan weithredwyr twristiaeth a grwpiau defnyddwyr.
- dd) Cynnydd yn lefel mesurau ysbrydoli.
- e) Recriwtio mwy o Hyrwyddwyr Cymunedol.
- f) Bydd grwpiau'n cyflwyno ceisiadau ac yn ennill gwobr Croeso i Gerddwyr.
- ff) Cynnydd mewn grwpiau cydnerthedd cymunedol newydd a gefnogir gan Y Cymoedd Gwyrdd.

Yr hyn rydym wedi ei gyflawni:

Cymunedau:

- Cynhaliwyd Astudiaeth Craffu gennym ar gyfer yr Amcan Gwella hwn a oedd yn cynnwys panel o Aelodau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â chynrychiolwyr o amrywiaeth o gyrff allanol, gan gynnwys Un Llais Cymru, twristiaeth gelfyddydol, a sefydliadau ieuencid a chymunedol. Y cyfeirnod ar gyfer yr astudiaeth yw Rhif: 4/2012-13. Roedd yr argymhellion yn cynnwys gwneud data'n fwy hygyrch; cynyddu cyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith yr adran cynllunio; cyflwyno atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau; ymchwiliad i'r Mynegai Bywiogrwydd Gwledig; ystyriaeth o'r ethos gwasanaeth cwsmeriaid; tystiolaeth ynghylch 'pwys' yn gwneud beth' ar gael yn fewnol ac yn allanol; hyrwyddo dealltwriaeth o'r hyn y mae gwasanaeth cynllunio o ansawdd yn ei olygu; sicrhau bod athroniaeth o atebolrwydd sy'n wynebu allan yn parhau i gael ei ymgorffori wrth lunio polisiau; a hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision gwerthuso ymhlith staff perthnasol.

- Rydym wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Siarter Cyngorau Cymuned ac ymgysylltwyd â 28 o Gyngorau Cymuned ac mae 17 wedi ymuno. Mae hyn yn cyrraedd y targed ar gyfer y mesuriad hwn.
- Rhagorwyd ar y targed o gymhareb arian cyfatebol o 1:1 gyda grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd cymhareb o 1:2.94 mewn gwirionedd.
- Cyflawnwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth Y Cymoedd Gwyrdd ar gyfer cymunedau a chyrraeddwyd y targedau ar gyfer y mesuriad hwn drwy'r prosiectau canlynol:
 - Datblygu hydro (10 o astudiaethau dichonoldeb, dau gynllun a chaniatâd a dau osodiad)
 - Prosiect ymwybyddiaeth ynghylch colli gwres mewn cartrefi
 - Cefnogaeth ar gyfer 12 o grwpiau cydnerthedd cymunedol (gan gynnwys datblygu grwpiau newydd)
 - Rheoli coetiroedd a chynhyrchu tanwydd coed: 91 cu m = arbed 36,400kg o Co2e
 - Cefnogi 11 o brosiectau bwyd lleol
- Rydym wedi cyflawni strategaeth cynhwysiant cymdeithasol a thlodi plant a chynllun gweithredu a oedd yn cwrdd â'r targed ar gyfer y mesuriad hwn.
- O ran y mesuriad 'cynyddu niferoedd y plant a theuluoedd mewn tldi sy'n cael budd o'r Parc Cenedlaethol', y dasg ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun oedd, yn rhannol, creu gwaelodlin ar gyfer ymweliadau addysgol, er bod salwch staff wedi achosi oedi yn hyn o beth. Mae hwn yn fesuriad newydd ac mae'n dangos cynnydd yn y maes hwn.
- Caiff cyfanswm y gostyngiad mewn CO2 ei gyfrifo ym mis Gorffennaf ar ôl diwedd y flwyddyn pan fydd yr holl ddata crai ar gael, er ei bod yn werth nodi y cyflawnwyd gostyngiad o 22% dros y pum mlynedd flaenorol. Nid yw gostyngiadau mewn CO2 yn dilyn cromlin lefn, ac mae'n bosibl y bydd gweithredu mentrau (e.e. cyflwyno fflyd CO2 is) yn cael effaith sylweddol mewn un flwyddyn (ar gyfer yr elfen honno o'r ôl-troed CO2) ac yn parhau'n wastad y flwyddyn ganlynol.

Addysg:

- Derbyniodd 6,694 o gyfranogwyr (myfyrwyr/athrawon/cynorthwywyr) negeseuon addysgol gan Swyddogion y Parc Cenedlaethol yn erbyn targed o 5,000. Roedd hyn yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y llynedd, sef 5,852.
- Roedd yr amser ar gyfartaledd a dreuliodd pob cyfranogwr gyda swyddogion y gwasanaeth addysg yn profi negeseuon y Parc Cenedlaethol yn 3.55 awr yn erbyn targed o 2.5 awr. Roedd hyn yn fwy na'r ffigwr ar gyfer y llynedd, sef 3.29 awr.
- Derbyniodd 694 o gyfranogwyr negeseuon y Parc Cenedlaethol drwy addysg cyfrwng Cymraeg yn erbyn targed o 600.

- Cyrhaeddodd y lefel ysbrydoliaeth ei tharged o 10 ar raddfa sgôr moddol o 11 pwynt.

Yn gyffredinol, rydym yn falch iawn â'r cynnydd a wnaed gennym yn y maes hwn. Rydym wedi cyrraedd neu ragori ar yr holl dargedau cytunedig (lle maent yn hysbys), ac mewn nifer o fesuriadau rydym wedi rhagori ar ein perfformiad o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Hefyd, rydym wedi cyflwyno mesuriad newydd, sef 'cynyddu niferoedd y plant a theuluoedd mewn tiodi sy'n cael budd o'r Parc Cenedlaethol' sy'n dangos cynnydd yn y maes hwn.

5. Casgliad

Yn ystod 2012-13, cymerodd yr Awdurdod gam arall ymlaen o ran datblygu Amcanion Gwella sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n deillio o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol. Ystyriwyd hyn yn waith sy'n mynd rhagddo a bydd gwelliannau pellach o ran cysylltu amcanion gwella â blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli yn cael eu cyflwyno yn 2013-14.

Mae lle i wella bob amser, ond ar y cyfan rydym yn credu ein bod wedi cyflawni ein Hamcanion Gwella fel a ganlyn:

Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol

Roedd 91% o gwsmeriaid y gwasanaeth cynllunio o'r farn bod y gwasanaeth a gafwyd yn foddhaol neu'n well o gymharu â'n targed o 80%.² Bu cynnydd yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, er na chyrhaeddodd ein targedau ar gyfer nifer yr achosion a benderfynir o fewn wyth wythnos ym mhob categori. Cyrhaeddodd ein targed o 85% ar gyfer ceisiadau a benderfynwyd a gafodd eu cymeradwyo.

Mae rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod rhag datblygu amhriodol

Yn gyffredinol, rydym wedi parhau i osod y seiliau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol. Cafodd yr ôl-groniad o achosion gorfodi ei ostwng yn sylweddol o 139 i 90, ac rydym wedi gwella ein canran o achosion gorfodi a gaiff eu datrys o fewn 12 wythnos.

Mae treftadaeth arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael ei gwarchod a'i gwella.

Rydym yn fodlon ein bod wedi cyflawni gwelliant yn y maes hwn. Rydym yn cyflwyno mesuriad newydd (canran y Caniatadau Adeilad Rhestredig a gaiff eu hanfon ymlaen at Cadw o fewn wyth wythnos) sy'n dangos cynnydd mesuriadau yn y maes hwn. Byddwn yn parhau i weithio i gyrraedd ein targed er ein bod yn cydnabod na wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer eleni. Er nad ydym wedi lleihau nifer yr Adeiladau mewn Perygl, rydym wedi cwrdd â neu ragori ar ein targed ym mhob

² Gweler troednodyn 1, tudalen 10..

mesuriad arall (nodyn canllaw Ardal Gadwraeth; Adeiladau Rhestredig sy'n derbyn cymorth grant; gwerthusiad Ardal Gadwraeth; cynnydd mewn tystiolaeth ffotograffig ar gyfer Henebion Cofrestredig; a gwella canran yr arian sy'n mynd tuag at Adeiladau mewn Perygl).

Bydd hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes ac yn ei drefn lywodraethu, ynghyd â hygyrchedd y rhain iddynt, yn cael eu gwella

Roeddem wedi cyrraedd neu ragori ar ein targedau cytunedig ym mhob mesuriad ac eithrio 'Aelodau'n mynychu diwrnodau hyfforddiant'. Mae hyn yn cynnwys nifer y diwrnodau hyfforddiant a gynhaliwyd, nifer y sesiynau hyfforddiant a oedd ar gael i Aelodau a nifer yr adolygiadau craffu a baratowyd. Cyflwynom ddau fesuriad newydd sy'n dangos cynnydd mewn mesuriadau yn y maes hwn. Un o'r mesuriadau newydd hyn oedd gweddarlledu tri chyfarfod y prif bwyllgor, a'r llall yw arolwg ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y gweddarlledu ym marn grwpiau cymunedol ac Aelodau.

Mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod a'i gwella trwy ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithredu ymarferol a chynghor ynghylch cynllunio

Rydym wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o brosiectau ein hunain ac rydym hefyd wedi cefnogi ein partneriaid mewn prosiectau ac, ar y cyfan, rydym yn hapus iawn â'r cynnydd a wnaed gennym yn y maes hwn, yn arbennig y cynnydd sylweddol a wnaed yng Nghytundeb Lefel Gwasanaeth Y Cymoedd Gwyrdd.



Mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan, ac yn cydnabod mantesion y lle y maent yn byw ynddo.

Mae gwaith y tîm Cymunedau Cynaliadwy a'r tîm Twristiaeth Gynaliadwy yn 2012/13 yn dangos cynnydd mewn darpariaeth ac ymgysylltiad â chymunedau drwy'r cynllun Llysgenhadon a chynlluniau cysylltiedig, ein gwaith gyda Geoparc y Fforest Fawr, y gwaith i gefnogi'r wyth o Gynghreiriau Gwledig, ymgysylltu â Chynghorau Cymuned drwy'r Siarter, a'n cyfranogiad cynyddol mewn hyfforddiant sgiliau gwledig. Mae cyflawni Statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol wedi ennyn diddordeb sylweddol yn y wasg ac wedi codi ymwybyddiaeth yn sylweddol am y Parc Cenedlaethol yn allanol, ac mae hefyd yn creu cyffro gwirioneddol ymhlith y cymunedau yn y Parc. Mae'r tîm addysg yn parhau i gefnogi dysgu a darparu gwybodaeth a chynghor.

Rydym hefyd wedi cwblhau Prosiect Splash, sydd wedi gwella mynediad at ddŵr mewndirol ar gyfer canŵ-wyr, caiacwyr, rhwyfwyr, pobl ag anabledd, cerddwyr a beicwyr.

6. Atodiadau

Atodiad I: Crynodeb Ariannol



Atodiad 2: Dangosyddion Perfformiad 2012-2013

Rhif	Dangosydd Perfformiad	Canlyniadau 2010-2011	Canlyniadau 2011 - 2012	Canlyniadau 2012 - 2013	Targed 2012 - 2013
CHR/ 001	Canran y gweithwyr (gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion) sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod, un ai'n wirfoddol neu'n anwirfoddol.	10.77%	6.98%	12.21%	10%
CHR/ 002	Nifer y diwrnodau gwaith/ shifftiau a gollwyd gan weithwyr cyfwerth ag amser llawn yr awdurdod o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.	9.36 diwrnod	7.42 diwrnod	8.84 diwrnod	8 diwrnod
CHR/ 004	Canran gweithwyr yr awdurdod sy'n dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.	1.54%	2.33%	1.53%	2.27%
CHR/ 005	Canran gweithwyr yr awdurdod sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.	3.1%	3.20%	5.9%	2.26%
CFH/ 006	Canran yr anfonebau diddadi a dalwyd o fewn 30 diwrnod o gael eu derbyn gan yr awdurdod.	97.60%	98%	86.40%	100%
PLA/002	Canran y ceisiadau ar gyfer datblygu yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cymeradwyo.	84%	84%	85%	85%
PLA/003	Nifer yr apeliadau a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â: a) penderfyniadau am geisiadau cynllunio b) hysbysiadau gorfodi a) Penderfyniadau am geisiadau cynllunio b) Hysbysiadau gorfodi	Cyfanswm 20 11 (gwrthodwyd 8) 2 72% 83%	Cyfanswm 13 13 (gwrthodwyd 11) 1 85% 100%	Cyfanswm 11 8 (gwrthodwyd 4) 1 50% 100%	

PLA/004	a) Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos *	0%	0%	0%	0%
	b) Canran y ceisiadau cynllunio bach a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	57.10%	60%	53.59%	60%
	c) Canran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	59.60%	75%	70.90%	85%
	ch) Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	49%	61%	53.84%	60%
PLA/005	Canran yr achosion gorfodi a ddatryswyd yn ystod y flwyddyn o fewn 12 wythnos o'u derbyn.	16%	22%	29%	65%
PLA/006	Nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	Ddim ar gael	15%	20%	Ddim ar gael
PLA/007	Nifer yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	Ddim ar gael	Ddim ar gael	47%	Ddim ar gael

*Anaml y bydd PLA 004 (i) yn cael ei benderfynu mewn Parc Cenedlaethol o fewn 13 wythnos oni bai ei fod yn wrthodiad caniatâd cynllunio cyflym. Byddai llawer o geisiadau mawr o'r fath yn amodol ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac felly'n cael eu penderfynu dros gyfnod hwy.

Atodiad 3:**Dangosyddion Perfformiad Cymharol Parciau Cenedlaethol Cymru
2012-2013**

Rhif	Dangosydd Perfformiad	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
CHR/ 001	Canran y gweithwyr (gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion) sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod, un ai'n wirfoddol neu'n anwirfoddol.	12.21%	7%	5.6%
CHR/ 002	Nifer y diwrnodau gwaith/ shifftiau a gollwyd gan weithwyr cywerth ag amser llawn yr awdurdod o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.	8.8 diwrnod	7 diwrnod	9.5 diwrnod
CHR/ 004	Canran gweithwyr yr awdurdod sy'n dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.	1.53%	0%	0%
CHR/ 005	Canran gweithwyr yr awdurdod sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.	5.9%	Data heb eu casglu	0.5%
CFH/ 006	Canran yr anfonebau diddadi a dalwyd o fewn 30 diwrnod o gael eu derbyn gan yr Awdurdod.	86%	98%	99%
PLA/002	Canran y ceisiadau ar gyfer datblygu yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cymeradwyo.	85%	83.5%	89%
PLA/003	Nifer yr apeliadau a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â: a) penderfyniadau am geisiadau cynllunio b) hysbysiadau gorfodi	Cyfanswm 9 8 1	Cyfanswm 11 10 1	Cyfanswm 10 10 0

	Canran yr apeliadau hyn a benderfynwyd a gadarnhaodd benderfyniad yr Awdurdod, mewn perthynas â:			
	a) Penderfyniadau am geisiadau cynllunio	50%	63%	55%
	b) Hysbysiadau gorfodi	100%	100%	Ddim ar gael
PLA/ 004	a) Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos.*	0%	20%	0%
	b) Canran y ceisiadau cynllunio bach a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	53.59%	55%	60%
	c) Canran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	70.90%	80%	75%
	ch) Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos	53.84%	58%	100%
PLA/005	Canran yr achosion gorfodi a ddatryswyd yn ystod y flwyddyn o fewn 12 wythnos o'u derbyn.	29%	89%	58%
PLA/006	Nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	20%	4% (ceisiadau a gymeradwywyd)	61%
PLA/007	Nifer yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.	47%	4%	28.5%

*Anaml y bydd PLA 004 (i) yn cael ei benderfynu mewn Parc Cenedlaethol o fewn 13 wythnos oni bai ei fod yn wrthodiad caniatâd cynllunio cyflym. Byddai llawer o geisiadau mawr o'r fath yn amodol ar Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol ac felly'n cael eu penderfynu dros gyfnod hwy.

Atodiad 4: Geirfa termau

AAC	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (gweler CNC)
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
AEA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
AMP	Adeiladau mewn Perygl
APC	Awdurdod Parc Cenedlaethol
APCAP	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
APCBB	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
APCE	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cadw	Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sy'n rhan o'r Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth
CAHT	Cynllunio a Hawliau Tramwy
CALI	Cyferwerth ag Amser Llawn
CBC	Cwmni Buddiant Cymunedol
CCC	Comisiwn Coedwigaeth Cymru (gweler CNC)
CCC	Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (gweler CNC)
CDA	Canllaw Dylunio Adeiladau
CDC	Cronfa Datblygu Cynaliadwy
CDL	Cronfa Dreftadaeth y Loteri
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CGaR	Canfod Golau a Radar
CGB	Cynllun Gwella Busnes
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyfuniad o CCC, CCGC ac AAC)

CPBB	Cymdeithas Parc Bannau Brycheiniog
CRhPC	Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol
CYP	Cyflwr y Parc
DGA	Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
DP	Dangosydd Perfformiad
GC	Grid Cenedlaethol
GGB	Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth
HR	Heneb Restredig
HT	Hawliau Tramwy
LIC	Llywodraeth Cymru
MSc	Meistr mewn Gwyddoniaeth
NPH	Nwy Petrolewm Hylifol
PhD	Doethur mewn Athroniaeth
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SGDd	System Gwybodaeth Ddaearyddol
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
UE	Undeb Ewropeaidd
Uniform	Enw system feddalwedd gyfrifiadurol
YCG	Y Cymoedd Gwyrdd
YG	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
YSEW	Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth

Atodiad 5:

Cynllun Gwella Busnes Rhan I